Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd**: | Glanhawr Ystafelloedd Ymolchi | **Lleoliad**: | Gwersyll yr Urdd, Llangrannog |
| **Adran**: | Gwersyll Llangrannog | **Cyflog**: | Gweithredol 1: £22,932 pro rata (£12.60 yr awr) |
| **Oriau Gwaith**: | Achlysurol | **Cytundeb**: | Achlysurol |
| **Yn adrodd i**: | Rheolwr Lletygarwch | **Rheolaeth Llinell**: | Dim |

**Prif bwrpas y swydd**:

Mae angen unigolion egnïol a brwdfrydig sydd â diddordeb mewn glanhau i weithio fel rhan o dîm hyblyg i gyfrannu at lwyddiant y Gwersyll.

**Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau**:

1. Glanhau ystafelloedd ymolchi llety a Gwersyll Llangrannog i safon uchel
2. Chwarae rhan hanfodol i gynnal lefelau uchel o lanweithdra yn y Gwersyll
3. Bydd gofyn i chi ymgymryd â dyletswyddau glanhau cyffredinol ar adegau

## Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| **Hanfodol:** | **Dymunol:** |
|---|---|
| 1. Profiad o weithio fel rhan o dîm neu heb oruchwyliaeth.<br>2. Bod yn hyblyg i gyflawni’r Gwaith i ofynion y Gwersyll.<br>3. Agwedd egnïol a brwdfrydig tuag at waith. | 1. Profiad o weithio mewn maes glanhau – darperir pob hyfforddiant angenrheidiol. |

**Newidiadau i’r Swydd Ddisgrifiad**: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

**Hyblygrwydd**: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

**Adolygiad**: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Rhagfyr 2019 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

**Gwiriadau Perthnasol**: Bydd yn ofynnol i’r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) oherwydd y lleoliad gwaith.